

# Y Pwyllgor Cyllid

## Rheoliadau Casglu a Rheoli Trethi (Cofnodion Treth Gwarediadau Tirlenwi) (Cymru) 2018

Mae'r Offeryn Statudol hwn yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid o dan Reol Sefydlog 27.8A.

### Cefndir a Phwrpas

1. Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ynghylch y cofnodion y mae'n rhaid eu storio gan berson sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy mewn perthynas â'r dreth gwarediadau tirlenwi o dan adran 38 o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 ('Deddf 2016').

### Y weithdrefn

Negyddol.

### Craffu ar rinweddau

Ni nodwyd unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt mewn perthynas â'r offeryn hwn.

### Amcanion polisi

#### Datganiad ar y bwriad polisi

2. Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor i graffu ar y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru), rhoddodd Llywodraeth Cymru wybodaeth am y bwriad polisi o ran y pwerau dirprwyedig yn y Bil.
3. Mae'r rheoliadau hyn yn ymwneud ag Adran 39 (A) o'r Ddeddf, a fewnosodwyd gan baragraff 8 o Atodlen 23 i Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (y "LTTA"). Mae'r pŵer hwn yn disodli pŵer tebyg i'r hyn a gynhwysir yn adran 36(6) o'r Bil (adran 38(6) o'r Ddeddf). (Mae adran 38(6) o'r Ddeddf wedi'i hepgor gan baragraff 5 o Atodlen 23 i'r LTTA).
4. Nododd y datganiad fod Adran 36(6) o'r Bil Casglu a Rheoli Trethi Adran 38 (6) yn y Ddeddf yn pennu pŵer gwneud rheoliadau i bennu cofnodion penodol neu



ddogfennau ategol ar gyfer ffurflenni treth sy'n dod o fewn y ddyletswydd i'w cadw a'u storio, neu nad ydynt yn dod o fewn y ddyletswydd honno.

## Gwaith craffu Cyfnod 1 gan y Pwyllgor Cyllid

5. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

## Ymatebion i'r ymgynghoriad

### *Ymgynghoriad y Cynulliad*

6. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

### *Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru*

7. Ni wnaed unrhyw sylwadau.

## Rheoliadau yn yr Alban

8. Nid oes gwahaniaethau nodedig rhwng y rheoliadau. Mae Rheoliadau Refeniw yr Alban a Phwerau Treth (Cadw Cofnodion) 2015 yn gwneud darpariaethau ar gyfer y dogfennau y mae'n ofynnol eu storio, sy'n gyson â'r rhai a nodir yn y rheoliadau arfaethedig yng Nghymru.

## Rheoliadau'r DU

Nid oes gwahaniaethau nodedig rhwng y rheoliadau. Mae Adran 16 o [Reoliadau Treth Tirlenwi 1996](#) yn deddfu ar gyfer storio'r un dogfennau ar gyfer treth tirlenwi y DU.

## Ymateb y Llywodraeth

Mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid.

## Safbwynt y Pwyllgor

Nododd y Pwyllgor y Rheoliadau.

